CYSTADLEUAETH BIFF IFANC CFFI CYMRU

CFfI YFC CYMRU | WALES

# BABY BEEF

CFfI Cymru | Wales YFC

WALES YFC BABY BEEF COMPETITION

BIFF IFANC CFFI CYMRU 2026
WALES YFC BABY BEEF 2026

**CYMHWYSTER**

1.Mae'r gystadleuaeth yn agored i Aelodau Ffederasiwn CFfI Gymru, yn ogystal ag aelodau Ffederasiynau CFfI Swydd Henffordd, Swydd Amwythig a Sir Gaer.

2.Gall cystadleuwyr ymgeisio am Gystadleuaeth Prif Gynhyrchydd Ŵyn yn ogystal â'r Gystadleuaeth Bîff Ifanc.

3.Bydd angen i gystadleuwyr fod wedi troi yn 14 mlwydd oed cyn dydd cyntaf y Ffair Aeaf, ac yn 28 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2026. Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys yn arwain at gosb o £10.Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o enwau'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelodau o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

**YMGEISIO**

4.Dylid anfon ffurflenni trwy **Porth Ffair Aeaf Frenhinol Cymru** erbyn yr **7fed o Hydref 2026**.Ni dderbynnir unrhyw ffurflenni hwyr.

5.Tâl cystadlu o **£15.00**.

**MANYLION Y GYSTADLEUAETH**

6.Dosbarth:
(a) Unrhyw Heffer Cyfandirol (Pur neu Groesfrid)
(b) Unrhyw Heffer Cynhenid Pur (NEWYDD)
(c) Unrhyw Fustach Cyfandirol (Pur neu Groesfrid)
(d) Unrhyw Fustach Cynhenid Pur (NEWYDD)

7..Bydd rhaid i'r holl loi fod o dan 425KG, pwysau byw. Bydd unrhyw lo sy'n uwch na'r pwysau yma yn cael eu gwahardd o'r gystadleuaeth.

8.Caiff lloi eu barnu ar sail eu rhinweddau fel lloi bîff masnachol y bwriedir eu cyflwyno i'r gadwyn fwyd. Bydd penderfyniad y Beirniaid yn derfynol. (Nodwch bydd yr unbeirniad Bîff Ifanc ar draws yr holl ddosbarthiadau gan gynnwys CFfI)

9.Os bydd angen, caiff y gwartheg eu rhannu yn gategorïau ar sail pwysau, yn unol â disgresiwn Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru.

10.Rhaid i gystadleuwyr brynu'r llo o farchnad neu o fferm eu teulu. Os prynir llo o fferm y teulu, rhaid i'w bris adlewyrchu prisiau presennol y farchnad.

11.RHAID i bob llo gwryw FOD WEDI'I YSBADDU.

12.Ni chaniateir i loi sy'n cael eu dangos gan aelodau yn y dosbarthiadau CFfI gystadlu mewn unrhyw ddosbarthiadau eraill yn Ffair Aeaf 2026.

**TREFN CYSTADLU**

13.Gofynnir i aelodau lenwi taflen wybodaeth amdanynt hwy a'u llo ar cyn y Ffair Aeaf a bydd angen ei ddychwelyd erbyn Dydd Sul y 29ain o Dachwedd. Defnyddir yr wybodaeth gan y sylwebydd pan ddangosir y lloi yn y cylch.
Taflen Wybodaeth – - https://forms.gle/dmMoVeZQSZnjY1aC8

14.Dylai'r lloi gyrraedd Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ddydd Sul y 29ain o Dachwedd rhwng 9yb a 2yp. Clymir y lloi mewn rhan benodol o'r sied wartheg a neilltuir i'r CFfI. Bydd y stiwardiaid yn neilltuo'r lle hwnnw.

15.Bydd angen cyflwyno pasbortau wrth giât mynediad y Da Byw wrth gyrraedd ynghyd â phob dogfen berthnasol arall.

16.Bydd rhaid pwyso'r lloi ar y dydd Sul yn y Ffair Aeaf ar yr adeg penodol. Rhoddir rhifau dangoswyr i gystadleuwyr yn ystod y Pwyso.

17.Dylid dod â'r lloi i'r Ffair Aeaf wedi eu clipio.

18.Mae gan y cystadleuwyr y opswisn i gael eu cefnogi gan 'Noddwr', megis cymdeithas brid, sefydliad marchnata, busnes leol neu un o gefnogwyr eraill y diwydiant.

19.Bydd pob cystadleuydd yn cael ardal benodol i godi bwrdd a dylid cynnwys manylion am y llo, manylion am y costau priodol, manylion porthiant a gwybodaeth ynglŷn â'i noddwr. Gall y bwrdd fesur hyd at 3tr x 3tr.

20.Bydd y beirniadu yn digwydd yn Ffair Aeaf Brenhinol Cymru, Llanelwedd, ar Ddydd Mawrth 1af o Ragfyr 2026 mewn pedwar dosbarth gwahanol, yr heffrod ag yna'r bustych.

21.Yn ystod y Ffair Aeaf, bydd gofyn i bob cystadleuydd arddangos eu llo eu hunain yn y Prif Gylch i'w Feirniadu. Caniateir i bob cystadleuydd gael **trinwr da byw cymwys ychwanegol** yn y cylch i'w cynorthwyo os oes angen, ond rhaid iddynt hefyd fod yn aelod o'r CFfI.

22.Bydd ein Heffer Cyfandirol buddugol yn symud ymlaen i gystadlu ym Mhencampwriaeth Biff Ifanc yr Heffrod Cyfandirol.

Bydd ein Heffer Cynhenid buddugol yn symud ymlaen i gystadlu ym Mhencampwriaeth Biff Ifanc yr Heffrod Cynhenid.

Bydd ein Bustach Cyfandirol Buddugol yn symud ymlaen i gystadlu gystadlu ym Mhencampwriaeth Biff Ifanc yr Bustach Cyfandirol.

Bydd ein Bust Cynhenind buddugol yn symud ymlaen i gystadlu ym Mhencampwriaeth Biff Ifnac yr Bustuch Cynhenid.

Yna bydd y 4 llo buddugol yng nghystadleuaeth y CFfI yn cael eu galw yn ôl i'r cylch i ddewis Pencampwr Biff Ifanc CFfI Cymru. Bydd yr anifail yn yr ail safle i'r pencampwr yn gymwys i gystadlu am Is-Bencampwr Biff Ifanc CFfI Cymru.

23.Dyfernir rhosglymau i 'Bencampwr Biff Ifanc CFfI Cymru' a 'Is-Bencampwr Biff Ifanc CFfI Cymru', 'Y Bwrdd Gwybodaeth Gorau' a'r 'Cystadleuydd Newydd yn y Safle Uchaf'

24.Bydd yr Heffer sydd yn Bencampwr Biff Ifanc CFfI Cymru yn mynd ymlaen i gystadlu ym Mencampwriaeth Heffrod Cig Eidion Babanod CFAC.

25.Bydd yr Bustach sydd yn Bencampwr Biff Ifanc CFfI Cymru yn mynd ymlaen i gystadlu ym Mencampwriaeth Bustych Cig Eidion Babanod CFAC.

26.Gall cystadleuwyr gynnwys eu lloi yn arwerthiant y Ffair Aeaf os dymunant. Cyfrifoldeb yr aelodau fydd hysbysu'r arwerthwyr ynghylch unrhyw isafswm pris y byddant yn dymuno ei bennu i'w llo. Cyfrifoldeb yr aelod yw mynd â'r llo i'r cylch arwerthu pan fydd angen hynny.

27.**Rhaid** cynnig y Pencampwr i'w werthu.

28.Nodwch fod rheolau cyffredinol CFfI Cymru a Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn berthnasol i'r gystadleuaeth hon.

29.Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan CFfI Cymru ar 01982 553502 neu e-bostiwch materiongwledig@yfc-wales.org.uk

**SYSTEM FARCIO**

Dyfernir 70% o'r marciau ar ddangos yr anifail gyda 30% o'r marciau'n dod o'r Bwrdd Gwybodaeth.

- Dyfernir 70% o'r marciau am stocmonaeth yn y sioe, wedi'u barnu dros y 3 diwrnod gan ystyried:
- Trin a dangos yr anifail,
- Paratoi. Cyflwyniad a lles yr anifail
- Agwedd a chydweithrediad â stiwardiaid yr adran a staff a swyddogion CFfI.

- Dyfernir 15% o'r marciau am y bwrdd a'r costau. A bydd yn ystyried:
- Costau – i gynnwys pris prynu'r llo,
- Os caiff ei brynu o fferm arall / cartref rhaid iddo adlewyrchu prisiau cyfredol y farchnad.
- Manylion y Llo – i gynnwys lleoliad y pryniant,
- Gwybodaeth yn hysbysebu'r "Noddwr",
- Effaith gyffredinol y cyflwyniad a
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a gyflwynir.

- Dyfernir 15% o'r marciau am ateb cwestiynau gyda beirniad y bwrdd arddangos, ni fydd y cwestiynnau yn para mwy na 10 munud.

Rhoddir y Gwobrau canlynol yn ystod y gystadleuaeth.
1. Anifail uchaf yn y cylch arddangos
2. Bwrdd Gwybodaeth Gorau
3. Cystadleuydd Newydd yn y Safle Uchaf yn Gyffredinol
4. Enillydd Cyffredinol

**FFURFLEN GAIS**
**CYSTADLEUAETH BIFF IFANC CFFI CYMRU**

I fod yn gymwys i gystadlu yng nghystadleuaeth Biff Ifanc CffI Cymru 2024, cwblhewch **Ffurflen Ar-lein Ffair Aeaf Frenhinol Cymru** erbyn y **7fed o Hydref 2026.**

Bydd y ddolen i Borth Mynediad Ar-lein Frenhinol Cymru yn cael ei gysylltu **YMA** unwaith y byddant wedi agor.

**Os ydych chi dan 18 mlwydd oed, mae angen cadarnhad gan riant.**

**RWYF WEDI DARLLEN RHEOLAU'R GYSTADLEUAETH AC RWY'N CYTUNO I GADW ATYNT.**

materiongwledig@yfc-wales.org.uk

**FFEDERASIWN CFFI CYMRU, CANOLFAN CFFI, LLANELWEDD**

CFfI
YFC
CYMRU | WALES